# PWYLLGOR CYNLLUNIO

Dydd Iau, 14 Rhagfyr 2017

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd A. Lenny (Cadeirydd)

**Y Cynghorwyr:**
J.M. Charles, I.W. Davies, J.A. Davies, M.J.A. Lewis, K. Madge, P.M. Edwards, W.T. Evans, J.K. Howell, J.D. James, H.I. Jones, G.B. Thomas, S.M. Allen, S.J.G. Gilasbey, C. Jones, S.A. Curry, K. Lloyd, D. Jones ad B.D.J. Phillips

**Hefyd yn bresennol:**
Y Cynghorydd L.D. Evans a fu'n annerch y Pwyllgor ynghylch cais cynllunio W/35041;

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:**
J. Edwards, Rheolwr Datblygu & Treftadaeth Adeiledig;
K. James, Peiriannydd Cynorthwyol (Cydgysylltu Cynllunio);
S. Murphy, Uwch-gyfreithiwr;
J. Thomas, Uwch Swyddog Rheoli Datblygu (y De);
C Davies, Swyddog Rheoli Datblygu;
M.S. Davies, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd.

**Y Siambr, Neuadd y Sir - 10.00 am - 12.35 pm**

## 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cafwyd ymddiheuriad am absenoldeb gan y Cynghorydd J.E. Williams.

## 2. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL.

| Y Cynghorydd | Rhif y Cofnod | Y Math o Fuddiant |
|---|---|---|
| D. Phillips | 5 – Cais Cynllunio W/33092 – Addasu adeilad amaethyddol presennol yn breswylfa, ysgubor ar dir Cilherwydd, Llanboidy, Hendy-gwyn ar Daf, Sir Gaerfyrddin, SA34 0LL | Yr Ymgeisydd |

## 3. RHANBARTH Y DWYRAIN - PENDERFYNU AR GEISIADAU CYNLLUNIO

**3.1 PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL ganiatáu'r cais cynllunio canlynol yn amodol ar yr amodau yn Adroddiad/Atodiad y Pennaeth Cynllunio a/neu y rhoddwyd gwybod amdanynt yn y cyfarfod:-**

| | |
|---|---|
| **E/33367** | **Un tyrbin gwynt 100kw ynghyd ag isadeiledd cysylltiedig, tir i'r gogledd o fferm Bryndu Isaf, Maes-y-bont, Sir Gaerfyrddin, SA14 7SS;** |

Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council
EICH CYNGOR arleinamdani
www.sirgar.llyw.cymru
YOUR COUNCIL doitonline
www.carmarthenshire.gov.wales

| | |
|---|---|
| **E/35108** | **Safle fferm newydd ynghyd ag adeiladau cysylltiedig a phwll slyri, tir a oedd gynt yn rhan o fferm Bodist Uchaf, Rhydaman;**<br><br>- **Yn amodol ar Asesiad Effaith Sŵn.**<br><br>Cafwyd sylwadau a wrthwynebai'r datblygiad arfaethedig ac a ailbwysleisiai rhai o'r pwyntiau yn adroddiad ysgrifenedig y Pennaeth Cynllunio, ac roeddent yn cynnwys y canlynol:<br><br>• Byddai'r pwll slyri o fewn 250 metr i eiddo'r gwrthwynebydd ond byddai eiddo'r ymgeisydd dros 500 metr i ffwrdd;<br>• Gwerth preswylfeydd yn gostwng;<br>• A oes unrhyw ystyriaeth wedi'i rhoi i hen weithfeydd glo mewn ardal sy'n cael ei hystyried yn risg uchel?;<br>• A yw'r pryderon ynghylch clymog Japan ar y safle wedi cael sylw?;<br>• Byddai arogleuon, fermin, golau a sŵn yn effeithio ar gymdogion;<br>• Pryderon o ran lles anifeiliaid;<br>• Maint a lleoliad - mae teuluoedd â phlant yn byw mewn 4 tŷ cyfagos;<br>• Lleoliadau mwy addas yn nes at y fferm;<br>• Pryderon y gallai gwrtaith hylif lygru nant sy'n agos at y datblygiad;<br>• Mwy o dda byw yn creu mwy o sŵn – a fyddai hyn yn bodloni'r ddeddfwriaeth o ran sŵn?.<br><br>Ymatebodd asiant yr ymgeisydd a'r Uwch-swyddog Rheoli Datblygu i'r materion a godwyd. |
| **E/36183** | **Tŷ eco newydd, tir ger 'New House', Cil-y-cwm, Llanymddyfri, Sir Gaerfyrddin, SA20 0SS;** |

**3.2 PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL ohirio ystyried y cais cynllunio canlynol er mwyn i'r Pwyllgor ymweld â'r safle:-**

| | |
|---|---|
| E/35356 | **Gwella'r mynediad presennol i gae i hwyluso mynediad i safle Lleoliad Ardystiedig â 5 carafán, tir Brynhyfryd, Heol Talyllychau, Llandeilo, SA19 7HU;**<br><br>**RHESWM:** Er mwyn galluogi'r Pwyllgor i asesu gwelededd a mynediad ar y safle/i'r safle.<br><br>Roedd y Pwyllgor, cyn penderfynu cynnal ymweliad safle, wedi cael sylw yn gwrthwynebu'r datblygiad arfaethedig, a oedd yn ailbwysleisio rhai o'r pwyntiau y manylwyd arnynt yn adroddiad ysgrifenedig y Pennaeth Cynllunio, gan gynnwys y pwyntiau canlynol:-<br>• Troad cas anniogel oddi ar Heol Talyllychau lle bu sawl damwain, gan gynnwys rhai angheuol;<br>• Un lle pasio yn unig sydd ar y ffordd un lôn i'r safle – ni fyddai ceir sy'n tynnu carafanau yn gallu bacio;<br>• Nid oedd llwybr troed ar y ffordd un lôn, ond roedd yn cael ei defnyddio'n aml gan gerddwyr a marchogion a fyddai'n cael anawsterau wrth i gar neu garafán agosáu;<br>• Mae bws ysgol wedi rhoi'r gorau i deithio ar hyd y ffordd oherwydd pryderon ynghylch diogelwch mewn perthynas â'r mynediad oddi ar Heol Talyllychau a'r ffordd un lôn;<br>• Mae llwybr troed cyhoeddus ger y fynedfa wedi cael ei ddinistrio yn sgil y gwaith;<br>• Mae'n gais ôl-weithredol ac mae'r berth a'r fynedfa'n gwbl wahanol i'r hyn yr oeddent yn flaenorol - mae'n rhy gymhleth ac mae'r berth wedi cael ei symud yn ôl;<br>• Dim gwybodaeth am ddefnydd arfaethedig adeilad sydd wedi'i gynnwys yn y cais;<br>• Gwelededd annigonol. |

## 4. RHANBARTH Y DE - PENDERFYNU AR GEISIADAU CYNLLUNIO

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL ganiatáu'r cais cynllunio canlynol yn amodol ar yr amodau yn Adroddiad/Atodiad y Pennaeth Cynllunio a/neu y rhoddwyd gwybod amdanynt yn y cyfarfod:-**

| | |
|---|---|
| S/36019 | **Newid defnydd o breswylfa C3 i dŷ amlfeddiannaeth defnydd C4 (5 unigolyn), 69 Panteg, Llanelli, SA15 3TE.** |

**5. RHANBARTH Y GORLLEWIN - PENDERFYNU AR GEISIADAU CYNLLUNIO**

**5.1 PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL ganiatáu'r cais cynllunio canlynol yn amodol ar yr amodau yn Adroddiad/Atodiad y Pennaeth Cynllunio a/neu y rhoddwyd gwybod amdanynt yn y cyfarfod:-**

| | |
|---|---|
| **W/33092** | **Addasu adeilad amaethyddol presennol yn breswylfa, ysgubor ar dir Cilherwydd, Llanboidy, Hendy-gwyn ar Daf, Sir Gaerfyrddin, SA34 0LL;**<br><br>(NODER: Gan ei fod wedi datgan buddiant yn y mater hwn yn gynharach, gadawodd y Cynghorydd D. Phillips Siambr y Cyngor cyn i'r Pwyllgor ystyried y mater a phenderfynu arno) |

**5.2 PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL ohirio ystyried y cais cynllunio canlynol er mwyn i'r Pwyllgor ymweld â'r safle:-**

| | |
|---|---|
| **W/35041** | **Tŷ fforddiadwy ar dir ger Taliaris, Maesycrugiau, Pencader, SA39 9DH;**<br><br>**RHESWM:** Cael golwg ar safle'r cais.<br><br>Cafwyd sylw oedd yn cefnogi'r cais ar y sail bod yr ymgeisydd yn bodloni'r meini prawf o ran bod angen lleol, ei fod wedi cael ac wedi rhoi sylw i gyngor cyn cynllunio, ac nad oedd unrhyw wrthwynebiadau wedi dod i law. |

**6. COFNODION - 31AIN HYDREF 2017.**

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL lofnodi fel cofnod cywir gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 31 Hydref, 2017.**

__________________________ ____________________

**CADEIRYDD** **DYDDIAD**